# ADEILADU L1

**PAVE Cyswllt Ysgolion mewn Adeiladu**

**Pryd gaiff ei gyflwyno:** Un prynhawn yr wythnos dros ddwy flynedd
**Teitl y Cymhwyster:** Tystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Adeiladu Sylfaenol
**Corff Dyfarnu:** City & Guilds

**Cyflwyniad i'r pwnc**
Dyma gwrs Lefel 1 lle bydd myfyrwyr yn meithrin sgiliau mewn ystod eang o feysydd ym maes adeiladu. Bydd y myfyrwyr yn treulio eu hamser yn y gweithdai adeiladu yn Ffordd y Bers. Lluniwyd y Dystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Adeiladu Sylfaenol i roi'r hyfforddiant sylfaenol mewn sgiliau adeiladu i'r rheiny sy'n chwilio am waith yn y diwydiant adeiladu ac i roi sgiliau sylfaenol i'r rheiny a all ddilyn gyrfaoedd eraill. Mae'n addas ar gyfer dysgwyr sydd heb unrhyw brofiad na gwybodaeth flaenorol o sgiliau crefft adeiladu. Bwriad y cymhwyster yw rhoi cyflwyniad i'r crefftau hyn ac yn benodol mae'n rhoi dealltwriaeth o dasgau crefft penodol yn hytrach na chymhwysedd galwedigaethol yn y grefft.

**Cynnwys y Cwrs**
- Cyflwyniad i'r Diwydiant Adeiladu
- Iechyd a Diogelwch mewn Adeiladu
- Cyflwyniad i Waith Saer ar Safle
- Cyflwyniad i Blastro
- Meithrin Sgiliau Plastro Tu Mewn a Thu Allan
- Cyflwyniad i Waith Brics/Sgiliau Gwaith Bloc
- Meithrin Sgiliau Gwaith Brics/Sgiliau Gwaith Bloc
- Cyflwyniad i Baentio
- Datblygu Gorffeniadau Paent

**Sgiliau a ddatblygir**
Dealltwriaeth o'r sgiliau sy'n angenrheidiol i weithio yn y Diwydiant Adeiladu megis:- Mesur, Lefelu, Torri a Defnyddio cynnyrch ar arwynebau gwahanol.

**Lleoliad y cyflwyno**
Gweithdai Ffordd y Bers

**Asesu**
Asesu Parhaus yn seiliedig ar unedau

**Costau**
Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), £25.00

Dolen gwefan cyflenwr y Coleg:
Macron Construction